Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ganolfan De-ddwyrain Cymru ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Athrawon

**Ysgol Addysg Caerdydd**
**Prifysgol Fetropolitan Caerdydd**
**Campws Cyncoed**
**Heol Cyncoed**
**Caerdydd**
**CF23 6XD**

**Ysgol Addysg**
**Cyfadran y Gwyddorau Bywyd ac Addysg**
**Prifysgol De Cymru**
**Campws Caerllion**
**Heol y Porthdy**
**Caerllion**
**NP18 3QT**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod / The Corporate Standard
Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd
Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag adran 18c Deddf Addysg 1994 (yr ychwanegwyd ato gan baragraff 13 o Atodlen 14 Deddf Addysg 2005).

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/09/2013**

## Cyd-destun

Sefydlwyd Canolfan De-ddwyrain Cymru ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Athrawon (SEWCTET) yn 2009. Mae'n un o'r tair canolfan hyfforddiant cychwynnol i athrawon yng Nghymru.

Mae'n cynnwys darpariaeth ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd a darpariaeth ym Mhrifysgol De Cymru.

Mae Canolfan De-ddwyrain Cymru yn cynnig y ddarpariaeth ganlynol ar gyfer hyfforddiant cychwynnol i athrawon:

- Astudiaethau Cynradd gyda Statws Athro Cymwys – BA (Anrhydedd);
- Addysgu Uwchradd: Mathemateg, Gwyddoniaeth, TGCh gyda Statws Athro Cymwys – BSc (Anrhydedd);
- Addysgu Uwchradd: Dylunio a Thechnoleg gyda Statws Athro Cymwys – BSc (Anrhydedd);
- Addysg Uwchradd: Cerddoriaeth neu Gymraeg 11 – 16 yn arwain at Statws Athro Cymwys – BA (Anrhydedd);
- TAR Cynradd gyda Statws Athro Cymwys;
- TAR Uwchradd gyda Statws Athro Cymwys;
- TAR Dylunio a Thechnoleg gyda Statws Athro Cymwys; a
- Rhaglen Athrawon Graddedig.

Mae darpariaeth gynradd BA, darpariaeth uwchradd BSc a TAR Dylunio a Thechnoleg wedi'u lleoli ar Gampws Caerllion Prifysgol De Cymru. Mae darpariaeth BA uwchradd, darpariaeth TAR cynradd a darpariaeth TAR uwchradd wedi'u lleoli ar Gampws Cyncoed Prifysgol Fetropolitan Caerdydd yng Nghaerdydd. Mae SEWCTET yn gweithio gydag ysgolion hefyd i ddarparu'r Rhaglen Athrawon Graddedig, sef llwybr hyfforddi yn seiliedig ar gyflogaeth i athrawon.

Mae'r rhaglenni Dylunio a Thechnoleg BA cynradd a BSc uwchradd yn rhai tair blynedd amser llawn. Mae'r rhaglenni Mathemateg, Gwyddoniaeth a TGCh BSc Uwchradd yn rhai dwy flynedd amser llawn. Mae'r rhaglenni TAR cynradd ac uwchradd i ôl-raddedigion yn rhaglenni blwyddyn amser llawn.

Mae 288 o hyfforddeion yn dilyn y rhaglen BA cynradd (y mae 17 ohonynt yn dilyn y cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg). Mae 120 o hyfforddeion yn dilyn y rhaglen uwchradd BSc (nid yw'r un ohonynt wedi eu cofrestru yn hyfforddeion cyfrwng Cymraeg). Mae 38 o hyfforddeion yn dilyn y rhaglen uwchradd BA (y mae 17 ohonynt wedi eu cofrestru yn hyfforddeion cyfrwng Cymraeg). Mae 123 o hyfforddeion yn dilyn y rhaglen TAR cynradd (y mae 33 ohonynt yn astudio'r cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg). Mae 287 o hyfforddeion yn dilyn y rhaglen TAR uwchradd (mae 44 ohonynt wedi eu cofrestru yn hyfforddeion cyfrwng Cymraeg).

Mae ysgolion partneriaeth cynradd ac uwchradd wedi eu lleoli yn Ne-ddwyrain Cymru yn bennaf.

Mae pob rhaglen yn destun y gofynion a nodir yng Nghylchlythyr 017/2009 Llywodraeth Cynulliad Cymru.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y darparwr** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | **Anfoddhaol** |

## Perfformiad presennol

Mae'r nodweddion da yn y ganolfan yn cynnwys:

- y cynnydd cyffredinol dda a wna'r rhan fwyaf o hyfforddeion ar draws yr holl raglenni tuag at fodloni'r safonau ar gyfer Statws Athro Cymwys;
- gwybodaeth bynciol gadarn hyfforddeion;
- yr aseiniadau o ansawdd da a gynhyrchir gan lawer o hyfforddeion;
- agweddau cadarnhaol hyfforddeion at ddysgu;
- darpariaeth rhaglenni sy'n ehangu cyfranogiad mewn hyfforddiant cychwynnol i athrawon; a'r
- addysgu o ansawdd da yn y rhaglen gynradd i israddedigion.

Fodd bynnag, bernir bod perfformiad presennol yn ddigonol oherwydd:

- nid yw mwyafrif o hyfforddeion yn defnyddio deilliannau asesu yn ddigon da i gynllunio i fodloni anghenion pob un o'r disgyblion;
- mewn llawer o achosion, nid yw mentoriaid a thiwtoriaid yn rhoi digon o arweiniad i hyfforddeion ynglŷn â sut i helpu disgyblion i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd;
- nid yw mwyafrif o hyfforddeion yn cynllunio'n ddigon da i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion ar draws y cwricwlwm; ac
- mae lleiafrif o fentoriaid yn rhy hael yn y graddau y maent yn eu dyfarnu i arfer hyfforddeion mewn gwersi a pherfformiad yn gyffredinol.

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn anfoddhaol oherwydd:

- mae cyfeiriad strategol y ganolfan yn aneglur;
- nid yw hunanarfarnu wedi'i seilio'n ddigon cadarn ar ddadansoddi tystiolaeth uniongyrchol. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r ganolfan i nodi meysydd pwysig i'w gwella;
- nid yw arweinwyr yn monitro cynnydd y ganolfan yn drylwyr wrth gyflawni nodau ar y cyd;
- mae lefel yr her a roddir gan arweinwyr i wella safonau yn amrywio gormod ar draws y ganolfan;
- nid yw arweinwyr ar draws y ganolfan yn meddu ar ddealltwriaeth ddigon cadarn o ansawdd yr hyfforddiant; ac
- nid yw rôl y llywodraethwyr i ddatblygu'r ganolfan wedi'i datblygu ddigon.

## Argymhellion

A1 Adolygu a chyfleu cyfeiriad strategol clir ar gyfer y ganolfan

A2 Sicrhau bod nodau strategol y ganolfan yn cael eu cefnogi gan gynlluniau cydlynus a thargedau clir ar gyfer gwella i arfarnu cynnydd yn drylwyr

A3 Gwella'r arfer o gasglu a dadansoddi tystiolaeth uniongyrchol i lywio hunanarfarnu yn well

A4 Gwella cynllunio hyfforddeion i roi ystyriaeth dda i ddeilliannau disgyblion a nodi amcanion dysgu clir

A5 Gwella medrau hyfforddeion i gynllunio ac addysgu gwersi sy'n datblygu llythrennedd a rhifedd disgyblion

A6 Sicrhau bod mentoriaid yn asesu perfformiad hyfforddeion yn gywir yn unol â'r Safonau ar gyfer Statws Athro Cymwys

A7 Cryfhau rôl llywodraethwyr wrth ddatblygu'r ganolfan

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y ganolfan yn llunio cynllun gweithredu yn dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn ail-arolygu'r ddarpariaeth ymhen rhyw flwyddyn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o hyfforddeion ar draws yr holl raglenni yn gwneud cynnydd cyffredinol dda tuag at fodloni'r safonau ar gyfer statws athro cymwys ar y cyfan.

Mae bron pob un o'r hyfforddeion yn meddu ar wybodaeth bynciol gadarn. Maent yn cynllunio gwersi'n fanwl. Maent yn cyfeirio'n briodol at raglenni astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant yn y Cyfnod Sylfaen mewn cynlluniau gwersi ac yn eu haseiniadau. Mae'r rhan fwyaf o hyfforddeion yn cynllunio ystod dda o weithgareddau ar gyfer disgyblion. Yn gyffredinol, mae hyfforddeion yn cynllunio gwersi strwythuredig i gynnal brwdfrydedd a chymhelliant disgyblion am y pwnc. Mae'r rhan fwyaf o hyfforddeion yn defnyddio ystod addas o strategaethau rheoli ymddygiad y mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol iddynt. At ei gilydd, mae gan hyfforddeion ddealltwriaeth dda o faterion iechyd a diogelwch ac maent yn cynllunio yn unol â hynny i sicrhau bod disgyblion yn ddiogel yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r rhan fwyaf o hyfforddeion yn cynllunio ac yn trafod gwaith yn effeithiol gydag oedolion, sy'n rhoi cymorth ychwanegol i ddisgyblion mewn gwersi.

Mae'r rhan fwyaf o hyfforddeion yn deall yn dda bod disgyblion yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd. Defnyddiant ystod eang o strategaethau ac adnoddau i ysgogi diddordeb disgyblion. Mewn rhai achosion, mae hyfforddeion yn cynllunio profiadau arloesol a chreadigol sy'n herio disgyblion yn dda. Mae llawer o hyfforddeion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion dysgu penodol disgyblion yn y dosbarthiadau y maent yn eu haddysgu.

Yn yr achosion prin lle mae hyfforddeion yn dangos arfer ragorol, maent yn cynllunio'n ofalus sut byddant yn asesu dysgu disgyblion ac yn defnyddio deilliannau disgyblion yn systematig i gynllunio'r camau nesaf mewn dysgu. Defnyddiant ystod effeithiol o strategaethau asesu ar gyfer dysgu. Maent yn helpu disgyblion i ddatblygu medrau da mewn hunanasesu ac wrth asesu cyfoedion.

Fodd bynnag, nid yw mwyafrif o hyfforddeion yn defnyddio deilliannau asesu yn ddigon da i gynllunio i ddatblygu dysgu disgyblion. Er bod hyfforddeion yn nodi'r amcanion dysgu a'r meini prawf llwyddo ar gyfer gwersi, yn rhy aml nid ydynt yn cysylltu'r amcanion dysgu a'r meini prawf llwyddo yn ddigon gofalus â gwahanol alluoedd disgyblion ac â'r strategaethau addysgu a dysgu mwyaf priodol. O ganlyniad, ni allant fyfyrio'n effeithiol ar ddysgu disgyblion a chynllunio gwaith sy'n briodol heriol ar gyfer pob disgybl mewn gwersi yn y dyfodol. Er bod llawer o hyfforddeion yn deall sut i ddefnyddio cwestiynau yn effeithiol i ddatgelu cynnydd disgyblion mewn dysgu, a rhai hyfforddeion yn holi disgyblion yn fedrus, nid yw mwyafrif o hyfforddeion yn defnyddio technegau holi yn ddigon da i archwilio dealltwriaeth a dysgu disgyblion yn llawn.

Mae gan y rhan fwyaf o hyfforddeion safonau da mewn llythrennedd, TGCh a rhifedd, er nad yw rhai hyfforddeion cynradd yn meddu ar fedrau rhifedd digon da. Fodd bynnag, yn eu haddysgu, nid yw mwyafrif o hyfforddeion yn cynllunio'n ddigon da i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm yn effeithiol.

Mae hyfforddeion cynradd yn defnyddio gorchmynion a chyfarchion syml yn Gymraeg, ond nid ydynt yn rhoi anogaeth reolaidd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg wrth ateb. Nid yw'r rhan fwyaf o hyfforddeion uwchradd yn gwneud digon o ddefnydd o'r Gymraeg mewn gwersi. Mae gan y rhan fwyaf o hyfforddeion ddealltwriaeth dda o'r Cwricwlwm Cymreig, ond nid ydynt yn cynllunio'n ddigon da i ddatblygu gwybodaeth disgyblion yn y maes hwn.

Mae hyfforddeion sy'n hyfforddi i addysgu Cymraeg mamiaith a'r rhai sy'n hyfforddi i addysgu pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yn meddu ar safonau da o lythrennedd Cymraeg. Maent yn fodel iaith da ar gyfer disgyblion.

Mae gan bron bob un o'r hyfforddeion ffeiliau trefnus, ac maent yn eu diweddaru'n rheolaidd. Mae bron pob un o'r hyfforddeion yn olrhain eu cynnydd yn systematig ac yn drylwyr yn unol â'r safonau ar gyfer statws athro cymwys.

Yn eu hastudiaethau yn y brifysgol, mae llawer o hyfforddeion yn gwneud cysylltiadau clir rhwng eu gwaith yn y brifysgol a'u profiad yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o hyfforddeion yn manteisio ar y cyfle i fyfyrio ar eu profiad ysgol ac ymestyn eu gwybodaeth trwy drafod gyda'u cyfoedion. Mewn rhai meysydd pwnc ar y rhaglen uwchradd i ôl-raddedigion, fel Saesneg, mathemateg ac ieithoedd tramor modern, mae llawer o hyfforddeion yn cymryd rhan mewn trafodaethau manwl gyda'u cyfoedion a'u tiwtoriaid. Mae ganddynt wybodaeth dda am ystod o ymchwil; maent yn gwrando'n ofalus ac yn herio'i gilydd yn briodol.

Mae gan y rhan fwyaf o hyfforddeion wybodaeth dda am fentrau presennol mewn addysg yng Nghymru. Mae hyfforddeion cynradd israddedig yn meddu ar wybodaeth dda iawn am ddatblygu llythrennedd yng Nghymru.

Fodd bynnag, mae gormod o hyfforddeion nad ydynt yn astudio'r deunydd darllen gofynnol yn ddigon da cyn sesiynau yn y brifysgol. Mae cyfraniadau at drafodaethau yn aml yn canolbwyntio'n ormodol ar eu profiad eu hunain o addysgu, ac nid yw'n cynnwys digon o ddadansoddi beirniadol o ddarllen ehangach.

Mae llawer o hyfforddeion yn llunio aseiniadau sy'n cynnwys dadleuon clir a chyfeiriadau da. Fodd bynnag, mae rhai hyfforddeion yn dangos medrau cyfyngedig o ran dadansoddi beirniadol, ac nid ydynt yn gwneud digon o ddefnydd o ddeunyddiau ymchwil.

Yn 2010-2011, ar y rhaglenni cynradd ac uwchradd i israddedigion, roedd cymwysterau hyfforddeion wrth iddynt gychwyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer hyfforddeion ledled Cymru. Yn 2010-2011, roedd 67% o hyfforddeion a oedd yn dechrau ar y rhaglen gynradd i israddedigion wedi ennill gradd dda (gradd dosbarth cyntaf neu radd ail ddosbarth uwch). Roedd hyn yn uwch na'r ffigur cyffredinol ar gyfer Cymru, sef 59%. Roedd pum deg naw y cant o hyfforddeion ar y rhaglen

uwchradd i ôl-raddedigion yn meddu ar radd dda wrth gychwyn, sydd uwchlaw ffigur Cymru, sef 52%.

Cyfran yr hyfforddeion cynradd israddedig a enillodd statws athro cymwys yn 2010-2011 yw 98%. Mae hyn gyfwerth â'r ffigur cyffredinol ar gyfer Cymru. Cyfran yr hyfforddeion cynradd ôl-raddedig a enillodd SAC yw 94%, sydd uwchlaw'r ffigur cyffredinol ar gyfer Cymru, sef 92%. Cyfran yr hyfforddeion uwchradd israddedig a enillodd statws athro cymwys yn 2012-2011 yw 94%. Mae hyn uwchlaw'r ffigur cyffredinol ar gyfer Cymru, sef 91%. Cyfran yr hyfforddeion uwchradd ôl-raddedig a enillodd SAC yn 2010-2011 yw 95%. Mae hyn uwchlaw'r ffigur cyffredinol ar gyfer Cymru, sef 90%.

Yn yr ystadegau diweddaraf sydd ar gael, dangosir mai cyfran yr hyfforddeion cynradd israddedig a gafodd swyddi addysgu yng Nghymru yn 2010-2011 yw 69% o'r hyfforddeion hynny a ymatebodd i'r Arolwg Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch (DLHE). Mae hyn uwchlaw ffigur cyffredinol Cymru, sef 60%, a ymatebodd i'r DLHE. Cyfran yr hyfforddeion cynradd ôl-raddedig a ymatebodd i'r DLHE a gafodd swyddi addysgu yng Nghymru yn 2010-2011 yw 86%, sydd ymhell uwchlaw ffigur cyffredinol Cymru, sef 73%. Cyfran yr hyfforddeion uwchradd israddedig a gafodd swyddi addysgu yng Nghymru ac a ymatebodd i'r DLHE yw 42%. Mae hyn uwchlaw ffigur cyffredinol Cymru, sef 40%. Cyfran yr hyfforddeion uwchradd ôl-raddedig a ymatebodd i'r DLHE ac a gafodd swyddi addysgu yng Nghymru yn 2010-2011 yw 61%. Mae hyn uwchlaw ffigur Cymru gyfan, sef 56%.

**Lles: Da**

Mae gan hyfforddeion ar draws yr holl raglenni agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o hyfforddeion yn datblygu strategaethau da i ddelio â baich gwaith beichus ac yn deall pwysigrwydd cadw cydbwysedd iach rhwng gwaith a bywyd. Mae gan bron bob un o'r hyfforddeion ddealltwriaeth dda o'r modd y mae'r gwersi y maent yn eu cynllunio yn cyfrannu at amgylchedd ystafell ddosbarth diogel a reolir yn dda. Mae'r rhan fwyaf o hyfforddeion yn cyfrannu'n effeithiol at dimau staff ac adrannau tra byddant yn yr ysgol. Mae llawer o hyfforddeion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o rôl asiantaethau allanol, er enghraifft gwasanaethau lles addysg, wrth gefnogi disgyblion unigol.

Mae'r rhan fwyaf o hyfforddeion yn cyfrannu'n dda at fywyd ehangach yn yr ysgol trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Mae llawer o hyfforddeion yn defnyddio eu medrau penodol yn dda i ddarparu gweithgareddau ychwanegol ar gyfer disgyblion, er enghraifft dosbarthiadau Sbaeneg i ddechreuwyr. Mae bron pob un o'r hyfforddeion yn mynychu cyfarfodydd staff, sesiynau hyfforddiant mewn swydd a chyfarfodydd rhieni yn rheolaidd i ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Ar y rhaglen uwchradd i ôl-raddedigion, mae llawer o hyfforddeion mewn pynciau fel celf a dylunio a drama yn datblygu eu medrau yn effeithiol trwy fynychu sesiynau allgyrsiol yn y brifysgol lle maent yn dysgu medrau newydd gan eu cyfoedion.

Mae bron pob un o'r hyfforddeion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o weithdrefnau diogelu yn y brifysgol ac yn yr ysgol.

Mae presenoldeb a phrydlondeb hyfforddeion mewn sesiynau yn y brifysgol yn dda

ar y cyfan. Mae hyfforddeion yn cadw cofnodion cywir o'u presenoldeb yn eu hysgolion lleoli. Fodd bynnag, nid yw rhai hyfforddeion ar y rhaglen uwchradd i ôl-raddedigion yn mynychu pob un o'r sesiynau datblygiad proffesiynol a drefnir gan uwch fentoriaid mewn ysgolion. O ganlyniad, nid ydynt yn datblygu eu gwybodaeth am faterion ysgol gyfan yn ddigon da.

Mae bron pob un o'r hyfforddeion yn cyfrannu'n rheolaidd at arfarnu'r ddarpariaeth yn y brifysgol ac yn yr ysgol. Mae hyfforddeion etholedig yn gweithredu fel cynrychiolwyr effeithiol ar gyfer hyfforddeion ar bwyllgorau yn y brifysgol. Mae'r rhan fwyaf o hyfforddeion yn hyderus bod y ganolfan yn rhoi ystyriaeth dda i'w safbwyntiau ac y byddant yn gwneud newidiadau lle bo'n briodol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae pob un o'r rhaglenni hyfforddiant cychwynnol i athrawon yn rhoi cyfleoedd da i hyfforddeion ddangos y safonau ar gyfer ennill statws athro cymwys (SAC). Mae'r rhaglenni yn y brifysgol ac yn yr ysgol yn darparu fframwaith cydlynus y gall hyfforddeion ddatblygu eu dealltwriaeth, eu gwybodaeth a'u medrau trwyddo. Mae llawlyfrau'r brifysgol, canllawiau profiad ysgol a'r amgylcheddau dysgu rhithwir yn rhoi gwybodaeth glir i hyfforddeion ac ysgolion am y cwrs a'r trefniadau asesu.

Mae'r ganolfan yn darparu lleoliadau ysgol sy'n gyflenwol ar gyfer hyfforddeion ac sy'n rhoi profiad dwfn ac amrywiol iddynt. Caiff y rhan fwyaf o hyfforddeion gyfleoedd da i addysgu disgyblion mewn gwahanol grwpiau blwyddyn ac o alluoedd gwahanol.

Mae'r adegau y caiff ysgolion wybodaeth am gynnydd a thargedau'r hyfforddeion yn amrywio gormod ar draws rhaglenni. Pan nad yw uwch fentoriaid yn cael y wybodaeth hon cyn y profiad ysgol, mae weithiau'n rhwystro eu gallu i gynllunio'n effeithiol ar gyfer parhad a dilyniant.

Mae'r rhaglenni uwchradd i israddedigion a'r llwybr hyfforddiant athrawon yn seiliedig ar gyflogaeth yn cyfrannu'n effeithiol at ehangu cyfranogiad mewn hyfforddiant cychwynnol i athrawon.

Mae'r rhaglenni hyfforddiant cychwynnol i athrawon a gynigir gan y ganolfan yn bodloni gofynion Cylchlythyr 017/2009 Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r rhaglenni datblygiad proffesiynol cychwynnol yn rhoi cyfleoedd da i hyfforddeion ystyried meysydd hyfforddi pwysig, fel gwahaniaethu ac anghenion addysgol arbennig, a materion ysgol ehangach. Mae rhestrau darllen yn cynnwys ystod dda o erthyglau ac ymchwil, yn ogystal â chyfeiriad at ddogfennau polisi a mentrau yng Nghymru.

Mae gan y ganolfan systemau priodol ar waith i brofi safonau llythrennedd a rhifedd ymgeiswyr cyn eu derbyn ar y cwrs. Mae trefniadau'r ganolfan i wella medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a medrau ehangach hyfforddeion a disgwyliadau a osodir ar hyfforddeion i wella'r medrau hyn yn rhy amrywiol ar draws rhaglenni. Mae

darpariaeth briodol i gefnogi dealltwriaeth hyfforddeion ac addysgu addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

Mae'r ganolfan yn cynnig darpariaeth addas yn y brifysgol ar gyfer hyfforddeion cynradd i wella eu medrau Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o hyfforddeion, yn enwedig hyfforddeion uwchradd, yn cael digon o arweiniad a chymorth ar y rhaglenni yn y brifysgol ac yn yr ysgol i hyrwyddo datblygiad Cymraeg disgyblion mewn darpariaeth cyfrwng Saesneg. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu dealltwriaeth hyfforddeion o'r Cwricwlwm Cymreig yn foddhaol.

Mae'r ganolfan yn darparu ystod dda o weithgareddau allgyrsiol y gall hyfforddeion ddewis gwella eu gwybodaeth a'u medrau mewn dysgu ac addysgu ar eu cyfer.

**Addysgu: Digonol**

Mae tiwtoriaid ar draws yr holl raglenni yn sefydlu perthynas gadarnhaol gyda hyfforddeion, sy'n hyrwyddo dysgu effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn meddu ar wybodaeth arbenigol dda. Nid yw rhai tiwtoriaid yn dangos gwybodaeth gadarn am arfer bresennol mewn ysgolion.

Mae mwyafrif y tiwtoriaid yn cynllunio sesiynau gyda nodau clir yn gysylltiedig â'r safonau ar gyfer statws athro cymwys. Maent yn cynllunio sesiynau gyda chydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau dysgu ymarferol a chyfleoedd i hyfforddeion fyfyrio ar addysgu theori ac arfer. Mae cyflymder sesiynau yn dda ar y cyfan, ac mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn modelu technegau holi yn effeithiol i ysgogi trafodaeth. Defnyddiant ystod dda o adnoddau, gan gynnwys ymchwil ddiweddar a dogfennau polisi Cymreig, i hyrwyddo trafodaeth. Fodd bynnag, mae'r graddau y mae tiwtoriaid yn helpu hyfforddeion i ddatblygu strategaethau a medrau effeithiol wrth asesu dysgu disgyblion, a defnyddio deilliannau disgyblion i gynllunio gwahaniaethu effeithiol, yn amrywio gormod ar draws rhaglenni.

Mewn llawer o sesiynau, mae tiwtoriaid yn cynllunio eu sesiynau i ddangos arfer dda o ran addysgu. Maent yn helpu hyfforddeion i ddadansoddi'r sesiwn ac ystyried sut gallai hyfforddeion addasu'r strategaethau yn effeithiol ar gyfer yr ystodau oedran y maent yn eu haddysgu. Mewn rhai sesiynau llai effeithiol, nid yw tiwtoriaid yn modelu arfer dda o ran addysgu nac yn helpu hyfforddeion i fyfyrio ar wahanol strategaethau addysgu.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn marcio aseiniadau mewn modd amserol ac yn unol â'r meini prawf asesu ar gyfer y rhaglen. Mae'r rhan fwyaf o'r marcio yn gywir. Mae llawer o diwtoriaid yn darparu sylwadau dadansoddol defnyddiol 'mewn testun', ond mae'r arfer hon yn amrywio gormod ar draws ac o fewn rhaglenni. Yn rhy aml, nid yw tiwtoriaid yn rhoi sylwadau sy'n herio syniadau'r hyfforddeion mwyaf abl.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn darparu crynodebau trosolwg defnyddiol i gefnogi'r radd a ddyfernir ar gyfer aseiniad, ond nid yw pob targed yn ddigon penodol. Mae tiwtoriaid ar y rhaglen gynradd i israddedigion yn rhoi adborth defnyddiol ar aseiniadau i ymateb i sylwadau hunanasesu unigol. Mae'r ddeialog hon rhwng tiwtoriaid a hyfforddeion yn gryfder arwyddocaol gan ei bod yn datblygu medrau

myfyrio'r hyfforddeion i lefel uchel. Mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn rhoi sylw priodol i ddefnydd hyfforddeion o iaith wrth farcio aseiniadau.

Yn yr hyfforddiant yn yr ysgol, mae bron pob mentor yn sefydlu perthynas waith dda gyda hyfforddeion. Mae'r rhan fwyaf o fentoriaid yn defnyddio'r ffurflenni a'r arweiniad asesu a ddarperir gan y ganolfan yn rheolaidd i roi adborth i hyfforddeion sy'n canolbwyntio'n dda ar y safonau ar gyfer y statws athro cymwys. Mewn lleiafrif o ysgolion uwchradd, mae mentoriaid a hyfforddeion yn defnyddio llyfrau nodiadau'n effeithiol i gofnodi adborth gan aelodau eraill o'r adran sy'n gweld hyfforddeion yn addysgu. Mae'r rhan fwyaf o fentoriaid yn defnyddio'u profiad yn dda i gynnig arweiniad priodol i hyfforddeion ar strategaethau addysgu.

Mewn rhai achosion lle mae mentora effeithiol iawn, mae mentoriaid yn helpu hyfforddeion i fyfyrio ar eu harfer trwy holi manwl a her. Maent yn adolygu cynlluniau gwersi, arfarniadau a ffeiliau addysgu yn rheolaidd ac yn rhoi sylwadau ystyrlon arnynt. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, nid yw adborth llafar ac ysgrifenedig mentoriaid yn canolbwyntio digon ar helpu'r hyfforddai i asesu cynnydd disgyblion mewn gwersi. Mewn llawer o achosion, nid yw mentoriaid yn rhoi digon o arweiniad i hyfforddeion ynglŷn â sut i roi cyfleoedd mewn gwersi i ddisgyblion wella eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Nid yw lleiafrif o fentoriaid yn asesu ansawdd addysgu hyfforddeion yn gywir. Maent yn rhy hael yn y graddau y maent yn eu dyfarnu. Nid ydynt yn rhoi digon o ystyriaeth i feysydd allweddol i'w gwella ac maent yn gosod targedau nad ydynt yn ddigon penodol i helpu'r hyfforddai i wella.

Mae tiwtoriaid yn arsylwi ar y cyd o leiaf unwaith gyda mentoriaid yn ystod pob profiad ysgol. Mae'r ddeialog broffesiynol yn ddefnyddiol i fentoriaid wrth safoni eu barn am y wers a arsylwyd. Mewn llawer o achosion, mae uwch fentoriaid a mentoriaid yn arsylwi ar y cyd o leiaf unwaith yn ystod y profiad ysgol i safoni barnau. Fodd bynnag, mae gormod o amrywiad yn effeithiolrwydd y broses hon.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ganolfan yn hyrwyddo iechyd a lles hyfforddeion yn dda. Mae'r rhaglenni ymsefydlu ar gyfer pob rhaglen yn rhoi ystor o wybodaeth ddefnyddiol i hyfforddeion i gefnogi eu hastudiaethau ar y cwrs, fel cymorth ariannol a chwnsela. Rhoddir pwyslais priodol ar draws yr holl raglenni ar ddatblygu dealltwriaeth hyfforddeion o bwysigrwydd cael cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd.

Mae'r rhan fwyaf o fentoriaid mewn ysgolion partneriaeth yn atgyfnerthu darpariaeth y ganolfan ar gyfer lles yn dda. Maent yn sicrhau bod hyfforddeion yn deall polisïau ymddygiad a disgyblaeth yr ysgol, ac maent yn helpu hyfforddeion i ddatblygu ystod briodol o strategaethau ymddygiad cadarnhaol ar gyfer gweithio gyda disgyblion heriol.

Mae systemau cymorth da ar waith ar draws y ganolfan i nodi gofynion penodol ac anghenion dysgu ychwanegol hyfforddeion, yn enwedig mewn perthynas ag anghenion meddygol ac iechyd meddwl. Mae prosesau effeithiol ar gyfer cefnogi a monitro lles yr hyfforddeion hyn. Mae'r rhain yn helpu tiwtoriaid i sicrhau nad yw

materion iechyd a lles yn rhwystro cynnydd a chyflawniad hyfforddeion. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion partneriaeth yn rhoi cymorth da i hyfforddeion sy'n cael anawsterau.

Mae'r ganolfan yn sicrhau bod yr holl hyfforddeion yn gallu cael y wybodaeth a'r arweiniad sydd eu hangen arnynt trwy ei gwefan. Mae'r ganolfan wedi creu cymorth ar-lein o ansawdd uchel ar gyfer hyfforddeion ar draws y bartneriaeth i ddelio â straen a phryder.

Ar draws yr holl raglenni, mae systemau clir ar waith i fonitro cynnydd academaidd hyfforddeion a darparu cwnsela academaidd priodol pan fydd angen.

Mae'r ganolfan yn rhoi sylw da i roi hyfforddiant priodol i hyfforddeion mewn perthynas â diogelu yn gynnar yn y ddarpariaeth yn y brifysgol. Mae ysgolion partneriaeth yn darparu hyfforddiant cadarn ym mholisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant yr ysgol yn ystod y cyfnod ymsefydlu.

Mae trefniadau'r ganolfan ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun unrhyw bryder.

Mae systemau clir ar waith i fonitro presenoldeb hyfforddeion mewn darpariaeth yn y brifysgol ac yn yr ysgol. Mae gweithdrefnau priodol ar gyfer delio ag absenoldeb o brofiad yn yr ysgol i sicrhau bod hyfforddeion yn bodloni'r gofynion amser a amlinellir yng Nghylchlythyr 017/2009 Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

At ei gilydd, caiff ystafelloedd dosbarth yn y brifysgol eu cynnal yn dda, ac maent yn darparu lle gwaith priodol. Mae'r ystafell lythrennedd ar gyfer y rhaglen gynradd i israddedigion yn darparu enghraifft dda iawn o arddangosiad rhyngweithiol effeithiol ar gyfer hyfforddeion i gefnogi dysgu disgyblion. Mae cyfleusterau chwaraeon rhagorol yn cyfannu'n effeithiol at iechyd a lles hyfforddeion a'u cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd.

Mae cyfleusterau da iawn ar gyfer TGCh ar draws y ganolfan, gan gynnwys byrddau gwyn rhyngweithiol y gall hyfforddeion eu defnyddio i wella eu medrau TGCh.

Mae llyfrgelloedd yn darparu ystod dda o destunau ar gyfer hyfforddeion a gall hyfforddeion fanteisio ar ddeunyddiau ymchwil trwy'r rhyngrwyd a systemau amgylchedd dysgu rhithwir y ganolfan. Fodd bynnag, nid yw adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gael mor rhwydd â'r rhai sydd ar gael yn Saesneg bob amser. Mae adnoddau a chyflwyniadau mewn sesiynau datblygiad proffesiynol yn aml yn cael eu darparu yn Saesneg yn unig ar y rhaglen gynradd ac uwchradd i ôl-raddedigion. Mae nifer y dewis o ran adnoddau cyfrwng Cymraeg yn y ganolfan adnoddau dysgu yn gyfyngedig.

Gall y rhan fwyaf o hyfforddeion fanteisio ar adnoddau priodol mewn ysgolion partneriaeth. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion partneriaeth yn darparu lle gwaith priodol ar gyfer hyfforddeion yn yr ysgol lle gallant baratoi gwersi.

Mae'r rhaglenni uwchradd i israddedigion a'r llwybr hyfforddiant i athrawon yn seiliedig ar gyflogaeth yn golygu y gall hyfforddeion fanteisio'n dda ar ystod o brofiadau blaenorol gwahanol. Mae hyfforddeion o wahanol gefndiroedd yn cyfrannu eu profiad yn effeithiol at hyfforddiant yn y brifysgol ac yn yr ysgol, ac mae hyn yn cyfoethogi'r ddarpariaeth i bawb.

Mae polisïau addas ar waith ar draws y ganolfan i gefnogi arfer dda mewn cydraddoldeb ac amrywiaeth ac i ddarparu amgylchedd cadarnhaol ar gyfer hyfforddiant ac addysg athrawon.

Mae'r ganolfan yn cynnal asesiadau risg rheolaidd o ran anabledd ac iechyd a diogelwch. Mae bron pob maes darpariaeth yn y brifysgol yn hygyrch i bob hyfforddai. Pan fydd gan hyfforddai anghenion penodol o ran mynediad, mae'r ganolfan yn gweithio'n dda gyda'r ysgol bartneriaeth i ddarparu adeiladau addas.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Anfoddhaol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Mae uwch arweinwyr yn y brifysgol a'r ganolfan wedi cydweithio'n dda i fodloni'r gofyniad cenedlaethol i ail-ffurfweddu hyfforddiant cychwynnol i athrawon yng Nghymru. Mae'r ganolfan wedi lleihau bron yr holl ddyblygu mewn rhaglenni hyfforddiant cychwynnol i athrawon yn Ne-ddwyrain Cymru, heblaw ar gyfer dyblygu dylunio a thechnoleg i ôl-raddedigion. Mae'r ganolfan yn cyflwyno rhaglenni defnyddiol i ehangu mynediad mewn pynciau â phrinder ac yn darparu rhaglenni trwy gyfrwng y Gymraeg, sy'n bodloni anghenion lleol a chenedlaethol.

Mae'r ddwy brifysgol sy'n cwmpasu'r ganolfan wedi sefydlu strwythur rheoli clir, gyda chynrychiolaeth gyfartal gan bob sefydliad i fonitro gwaith y ganolfan.

Mae'r Bwrdd Rheoli'n cynnwys uwch arweinwyr prifysgol yn briodol. Mae'n goruchwylio datblygiad y ganolfan ac yn monitro safonau academaidd. Mae'r Pwyllgor Prosiect yn goruchwylio datblygiad polisïau, gweithdrefnau ac arferion ar y cyd yn effeithiol. Mae staff ar draws y ganolfan yn gweithio gyda'i gilydd yn gynhyrchiol mewn grwpiau 'gorchwyl a gorffen' i ddatblygu agweddau ar ddarpariaeth gyffredin, fel y trefniadau partneriaeth ysgol.

Fodd bynnag, mae cyfeiriad strategol y ganolfan yn aneglur. Datblygwyd cynllun strategol y ganolfan adeg yr ail-ffurfweddu yn 2009 ac nid yw wedi cael ei ddiweddaru. Adeg yr arolygiad, roedd y rhan fwyaf o'r camau yng nghynllun strategol 2009 wedi cael eu cyflawni.

Mae diffyg cydlyniad o ran cynllunio datblygiad. Caiff yr amcanion ar gyfer y ganolfan eu lledaenu trwy nifer o ddogfennau, gan gynnwys y cynllun ail-ffurfweddu a phob un o gynlluniau'r Ysgol Addysg. Mae cynlluniau gweithredol, fel cynllun datblygu'r ganolfan, yn aml yn cynnwys targedau sy'n llawer rhy eang. O ganlyniad, nid yw uwch arweinwyr y brifysgol ac uwch arweinwyr y ganolfan yn monitro cynnydd y ganolfan yn drylwyr o ran cyflawni nodau ar y cyd. Mae'r rhain yn feysydd pwysig i'w gwella.

Mae uwch arweinwyr y ganolfan yn meddu ar ddealltwriaeth ar y cyd o'r tasgau y dylid eu cwblhau dros gyfnod i ddatblygu'r ganolfan. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u rolau yn eu sefydliadau eu hunain. Fodd bynnag, nid yw staff ar draws y ganolfan yn rhannu dealltwriaeth glir o'r weledigaeth ar gyfer y ganolfan.

Mae gan y rhan fwyaf o arweinwyr canol ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'r rhaglenni y maent yn gweithio arnynt. Fodd bynnag, mae eu dealltwriaeth o'r gwahaniaethau mewn ansawdd rhwng rhaglenni a lefel yr her y maent yn ei darparu ar gyfer eu cydweithwyr wrth geisio gwella safonau yn amrywio gormod ar draws y ganolfan.

Mae penodi Rheolwr Prosiect wedi helpu i wella gweithdrefnau gweithredol, fel casglu data ac ad-drefnu'r bartneriaeth ag ysgolion.

Mae prosesau clir ar waith, ac mae'r Bwrdd Rheoli yn cael gwybodaeth am waith y ganolfan trwy'r rhain yn rheolaidd. Mae'r cofnodion ar gyfer y Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Prosiect yn cofnodi'r papurau sy'n dod i law a'r camau a gymerwyd. Fodd bynnag, yn achos y Bwrdd Rheoli, nid ydynt yn cofnodi sut mae'r bwrdd yn cynnig her gadarn i ddwyn datblygiadau ymlaen yn y ganolfan.

Mae aelodau'r Bwrdd Rheoli yn adrodd am gynnydd y ganolfan wrth eu cyrff llywodraethol priodol ac yn cael eu sylwadau. Fodd bynnag, nid yw rhan llywodraethwyr o ran gweithredu fel ffrind beirniadol a datblygu cyfeiriad y ganolfan wedi'i datblygu'n ddigonol.

At ei gilydd, mae'r ganolfan yn rhoi cyfleoedd da i staff gymryd rhan mewn trafodaethau a datblygiadau cenedlaethol mewn addysg athrawon. Mae'r rhain yn cynnwys cadeirio UCET Cymru, sef y pwyllgor cenedlaethol ar gyfer addysg a hyfforddiant i athrawon, arwain datblygiad profion llythrennedd a rhifedd ar-lein cyn cychwyn ar gyfer ymgeiswyr hyfforddiant cychwynnol i athrawon, cymryd rhan mewn datblygu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a mentora ar Raglen Meistr mewn Ymarfer Addysgol Llywodraeth Cymru.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Caiff ansawdd rhaglenni'r ganolfan ei sicrhau trwy systemau ansawdd ar wahân yn y naill brifysgol.

Mae adroddiad hunanarfarnu cyffredinol y ganolfan wedi'i strwythuro o amgylch Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn rhy ddisgrifiadol ac nid yw'n cynnwys dadansoddi beirniadol effeithiol. Mewn gormod o ddangosyddion, nid yw'n defnyddio tystiolaeth uniongyrchol. Nid yw'r cysylltiadau rhwng hunanarfarniad y ganolfan a chynllunio ar gyfer gwelliant ar draws y ganolfan yn ddigon clir. Mae hyn yn golygu nad yw'r ganolfan yn ddigon da yn nodi targedau clir ar gyfer datblygu, adolygu darpariaeth yn erbyn targedau yn effeithiol neu nodi camau clir i'w cymryd i sicrhau gwelliant.

Mae cynllun gweithredu'r bartneriaeth yn cynnwys manylion am feysydd i'w datblygu neu'u gwella ar draws y ganolfan rhwng 2011 a 2014. Mae'n blaenoriaethu'r

meysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, nid yw'r targedau a osodir yn ddigon heriol.

Mae'r ddau bartner prifysgol yn cynnal dadansoddiad rheolaidd o ddata eu rhaglen eu hunain ar gyfer hyfforddiant cychwynnol i athrawon. Maent yn adrodd am y deilliannau yn eu hadroddiadau monitro sefydliadol priodol ac yn llunio cynlluniau gweithredu i'w defnyddio yn eu sefydliad. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau gweithredu'n cael eu defnyddio'n effeithiol bob amser i olrhain cynnydd.

Mae'r ddau bartner prifysgol yn casglu ystod eang o wybodaeth yn rheolaidd trwy holiaduron, grwpiau ffocws, pwyllgor llywio'r bartneriaeth, adroddiadau rhaglen a chyfarfodydd gyda mentoriaid a staff. Maent yn ystyried safbwyntiau ystod briodol o randdeiliaid, gan gynnwys hyfforddeion, ysgolion partneriaeth, penaethiaid ac arholwyr allanol. Maent yn dadansoddi'r deilliannau yn briodol i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu.

Nid yw arweinwyr ar draws y ganolfan yn casglu tystiolaeth uniongyrchol o addysgu ac nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon cadarn o ansawdd yr hyfforddiant. Mewn ychydig iawn o achosion, mae arweinwyr canol yn olrhain cynnydd hyfforddeion yn drylwyr i arfarnu effaith yr hyfforddiant. Maent yn ymyrryd yn effeithiol ac yn rhoi cymorth targedig i diwtoriaid a hyfforddeion.

Mae'r ddau bartner prifysgol wedi rhoi systemau ar waith lle mae tiwtoriaid yn gweithio'n gydweithredol i arsylwi ei gilydd a rhoi adborth ar ffocws personol cytûn. Rhennir deilliannau'r broses i ddarparu targedau generig ar gyfer gwella addysgu. Fodd bynnag, nid oes dadansoddiad cyffredinol o effaith y broses hon ar wella safonau hyfforddeion.

Mae'r ganolfan wedi datblygu system rheoli ansawdd mewn modd defnyddiol i goladu data o'r holl raglenni ar draws y ganolfan. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld yr effaith a gaiff y system hon ar nodi meysydd cryfder a meysydd i'w gwella.

Mae'r ddau sefydliad wedi gwneud cynnydd yn erbyn llawer o'r argymhellion a nodwyd yn eu hadroddiadau arolygu diwethaf, er bod gallu hyfforddeion i ddefnyddio deilliannau disgyblion i gynllunio amcanion gwersi a gwella gwybodaeth a dealltwriaeth hyfforddeion o ddefnyddio Cymraeg achlysurol yn parhau i fod yn feysydd i'w datblygu.

Mae'r diffyg hunanarfarnu yn cyfyngu ar allu'r ganolfan i nodi meysydd pwysig i'w gwella yn gywir.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae'r ganolfan wedi gweithio'n dda gyda'i hysgolion partneriaeth i greu dogfennaeth gyffredinol ar gyfer y profiad yn yr ysgol ar gyfer pob rhaglen ar draws y bartneriaeth. Mae ysgolion sy'n derbyn hyfforddeion o'r ddwy brifysgol yn y ganolfan yn gwerthfawrogi'r dull cyffredin, sy'n helpu i leihau dyblygu diangen.

Mae gan y ganolfan feini prawf clir ar gyfer dewis a dad-ddewis, er nad yw pob ysgol yn y bartneriaeth yn gwbl ymwybodol o'r meini prawf. Mae'r rhan fwyaf o uwch

fentoriaid yn dewis y mentoriaid yn eu hysgolion yn ofalus ac maent ond yn caniatáu i hyfforddeion ymuno â dosbarthiadau neu adrannau lle mae gan staff y profiad addysgu priodol i gefnogi athro dan hyfforddiant.

Mewn llawer o achosion, mae uwch fentoriaid yn monitro hyfforddiant cychwynnol i athrawon yn yr ysgol yn agos i sicrhau ansawdd profiad yr hyfforddai.  Fodd bynnag, nid yw'r arfer hon yn gyson drylwyr ar draws yr holl raglenni.

Mae'r ganolfan yn darparu hyfforddiant mentora rheolaidd ar gyfer mentoriaid gan ddibynnu ar b'un a ydynt yn mentora am y tro cyntaf, wedi mentora hyfforddeion y ganolfan o'r blaen neu os ydynt yn uwch fentoriaid gyda throsolwg o hyfforddiant cychwynnol i athrawon yn yr ysgol.  Mae hyfforddiant mentoriaid yn cynnwys ffocws da ar arsylwi gwersi.  Fodd bynnag, nid yw mentoriaid yn cael digon o hyfforddiant ym medrau mentora neu mewn llunio barnau cywir am gynnydd hyfforddeion yn unol â'r safonau ar gyfer statws athro cymwys.

Mae presenoldeb mewn hyfforddiant i fentoriaid yn gwella, ond mae'n parhau i fod yn amrywiol.  Nid yw lleiafrif o fentoriaid yn mynychu hyfforddiant cyn derbyn hyfforddai. Pan nad yw mentoriaid yn mynychu hyfforddiant, mae tiwtoriaid yn darparu hyfforddiant unigol pan fyddant yn ymweld â'r hyfforddai yn yr ysgol.  Fodd bynnag, efallai na fydd hyn ar ddechrau'r lleoliad ysgol, a lle mae mentora yn rhywbeth newydd i athrawon, gall hyn rwystro datblygiad proffesiynol yr hyfforddai.

Mae swyddfa bartneriaeth y ganolfan yn ymateb yn brydlon ac yn effeithlon iawn i ymholiadau ysgolion.  Mae mentoriaid yn hyderus y bydd tiwtoriaid yn ymateb yn gyflym os bydd anawsterau'n codi.

Mae'r ganolfan wedi cyflwyno rôl uwch diwtor y brifysgol i gefnogi a helpu i wella ansawdd y ddarpariaeth mewn ysgolion partneriaeth.  Mae hon yn rôl gymharol newydd ac mae llawer o ysgolion wedi ymateb yn gadarnhaol iddi, yn enwedig ysgolion uwchradd.  Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld effaith lawn y rôl hon ar wella ansawdd y ddarpariaeth a safonau cyflawniad hyfforddeion.

Mae'r swyddfa bartneriaeth yn darparu gwybodaeth generig am y cryfderau a'r meysydd i'w datblygu sy'n codi o adborth hyfforddeion o'u cyfnod ar brofiad ysgol. Fodd bynnag, nid yw ysgolion yn cael adborth gan hyfforddeion unigol y maent wedi'u cefnogi, er bod llawer o ysgolion yn agored i gael adborth i wella'u harfer.

Yn ychwanegol i'w rolau mewn ysgolion, mae lleiafrif o fentoriaid ac uwch fentoriaid yn cefnogi'r rhaglen hyfforddi yn effeithiol trwy helpu wrth ddewis hyfforddeion, fel siaradwyr gwadd mewn sesiynau yn y brifysgol, a rhai trwy fod yn aelod o grŵp llywio'r bartneriaeth.  Fodd bynnag, ychydig o fentoriaid yn unig sydd mewn sefyllfa i wneud cyfraniadau sylweddol at gynllunio'r rhan o'r rhaglen a gynhelir yn y brifysgol.

Mae gan y ganolfan bartneriaethau gweithio effeithiol gyda llawer o sefydliadau cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys ysgolion sy'n darparu ar gyfer anghenion addysgol arbennig ac ysgolion dramor.  Er bod tiwtoriaid yn monitro cynnydd hyfforddeion ar leoliadau o'r fath, mae hyfforddeion o bryd i'w gilydd yn cwblhau eu hyfforddiant yn yr ysgol mewn ysgol lle mae'n anodd iddynt fodloni eu targedau'n llwyddiannus.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan diwtoriaid gymwysterau da, ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt raddau uwch. Mae ganddynt wybodaeth bynciol dda, ac mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn meddu ar ddigon o wybodaeth am arfer bresennol mewn ysgolion i baratoi hyfforddeion yn effeithiol ar gyfer lleoliadau ysgol.

Mae'r ganolfan yn defnyddio'r system werthuso i nodi anghenion datblygiad proffesiynol unigol staff yn bennaf. Rhoddir cyfleoedd da i diwtoriaid ymgymryd ag ystod dda o ddysgu proffesiynol. Mae tiwtoriaid yn defnyddio cyfleoedd i ymchwilio i feysydd sy'n gysylltiedig â dysgu ac addysgu. Mae hyn yn helpu iddynt ddilyn hynt a helynt datblygiadau newydd mewn dysgu ac addysgu a gallant gyflwyno hyfforddeion iddynt mewn sesiynau yn y brifysgol, er enghraifft blaenoriaethau cenedlaethol llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, nid yw rhai tiwtoriaid yn ymgymryd â gweithgareddau sy'n sicrhau bod ganddynt wybodaeth gadarn am arfer bresennol mewn ysgolion.

Mae'r ganolfan yn defnyddio staff sy'n medru'r Gymraeg mewn modd effeithiol i wella profiadau hyfforddeion ar bob rhaglen.

Mae'r ganolfan wedi cyfeirio adnoddau yn effeithiol tuag at y blaenoriaethau a nodwyd yn ei chynllun ail-ffurfweddu. Yn benodol, cyfeiriwyd cyllid yn effeithiol tuag at uwchraddio adeiladau, gan gynnwys gwella cyfleusterau gwybodaeth a chyfathrebu ar gyfer hyfforddiant cychwynnol i athrawon, a rheoli ail-ffurfweddu'r bartneriaeth.

Mae'r ganolfan wedi cyflwyno nifer o fentrau sydd wedi helpu i wneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau. Mae'r gostyngiad yn niferoedd yr ysgolion partneriaeth yn helpu i wneud y defnydd mwyaf o staff sy'n sicrhau ansawdd lleoliadau. Mae'r ganolfan wedi cael gwared ar ddyblygu hefyd trwy greu cronfa gyffredin o ddogfennaeth ar gyfer hyfforddiant yn yr ysgol a thrwy adnoddau a chyfathrebu ar-lein.

Er bod arweinwyr yn rheoli'r adnoddau'n dda, o ystyried y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr, mae gwerth am arian yn ddigonol.

## Atodiad 1

**Bodloni'r gofynion ar gyfer hyfforddiant cychwynnol i athrawon**

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn achredu hyfforddiant cychwynnol i athrawon yng Nghymru. Mae'r gofynion ar gyfer hyfforddiant cychwynnol i athrawon wedi'u nodi yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 17/2009, Dod yn Athro Cymwysedig: Llawlyfr Canllawiau (2009).

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer achrediad cychwynnol a chynnal achrediad wedi'u nodi yn nogfen CCAUC, Achredu Darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon yng Nghymru (Atodiad A).

Mae CCAUC yn ystyried bod y partneriaid ym mhob Canolfan Addysg Athrawon yn gyfrifol ar y cyd am gydymffurfio â'r meini prawf achredu ac y gallai materion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn narpariaeth un partner gael effaith andwyol ar statws achredu'r partner arall.

Mae'n ofynnol i Estyn roi gwybod i CCAUC am ei farn arolygu am gydymffurfio, a barnau am ddarpariaeth anfoddhaol a/neu agweddau ar y ddarpariaeth, o fewn pythefnos o gwblhau'r arolygiad.[1] Ni fydd hyn yn hwyrach na'r dyddiad y mae Estyn yn anfon drafft terfynol yr adroddiad arolygu at y darparwr.

Bydd CCAUC fel arfer yn ystyried, lle mae Estyn yn rhoi barn 'anfoddhaol' i'r naill neu'r llall o'r ddwy brif farn gryno, neu i unrhyw un o'r cwestiynau allweddol o fewn Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn, bod tystiolaeth nad yw'r ddarpariaeth neu agwedd ar y ddarpariaeth yn cydymffurfio â'r meini prawf ar gyfer achredu.

Pan mae Estyn yn nodi diffyg cydymffurfio â'r meini prawf ar gyfer achredu, bydd CCAUC yn gofyn i'r darparwr gyflwyno cynllun gweithredu ac amserlen i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd a sicrhau cydymffurfio. Bydd Estyn yn gofyn i'r darparwr lunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â phob un o'r materion a nodwyd yn yr arolygiad, gan gynnwys rhai yn ymwneud â diffyg cydymffurfio.

Mewn achosion lle nad oes diffyg cydymffurfio â'r meini prawf ar gyfer achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol i athrawon, bydd y darparwr sy'n methu darparu safon anfoddhaol o addysg neu hyfforddiant, neu ble nad yw arweinwyr yn dangos y gallu i sicrhau gwelliannau angenrheidiol, yn cael ei ail-arolygu rhwng 12-18 mis ar ôl yr arolygiad craidd.

---

[1] Estyn sy'n pennu dyddiad cwblhau'r arolygiad. Fel arfer, bydd hyn yn digwydd ar y dyddiad y mae Estyn yn rhoi adborth llafar terfynol i'r darparwr.

Os nodir cynnydd anfoddhaol, gan gynnwys diffyg cydymffurfio parhaus â'r meini prawf ar gyfer achredu, yn yr ailarolygiad, bydd Estyn yn hysbysu CCAUC, a allai wedyn gymhwyso'i weithdrefnau ar gyfer tynnu'r achrediad yn ôl.

Bydd Estyn yn rhoi gwybod i'r darparwr hyfforddiant cychwynnol i athrawon, CCAUC a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (ASA) am ei farnau yn ysgrifenedig.

## Atodiad 2

**Boddhad dysgwyr**

Cafodd Estyn 232 o ymatebion gan hyfforddeion, a ddewiswyd ar hap ar draws y rhaglenni.

Mae’r rhan fwyaf o hyfforddeion yn credu y cawsant wybodaeth dda gan y darparwr wrth ddewis eu cwrs a bod y rhaglen hyfforddiant cychwynnol i athrawon yn eu paratoi’n dda i fodloni’r safonau ar gyfer statws athro cymwys.

Mae’r rhan fwyaf o hyfforddeion yn credu bod gan eu rhaglen hyfforddiant cychwynnol i athrawon gyfnod ymsefydlu defnyddiol wnaeth eu helpu i ymgynefino â’u hastudiaethau. Teimlant fod eu tiwtoriaid a’u mentoriaid yn eu hannog i fyfyrio ar eu cynnydd eu hunain.

Mae’r rhan fwyaf o hyfforddeion yn credu bod eu tiwtoriaid yn rhoi cyfleoedd dysgu iddynt yn Gymraeg a/neu Saesneg yn unol â’u dewis. Teimlant fod eu tiwtoriaid yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd da a’u bod yn rhoi adborth buddiol iddynt ar eu haseiniadau ysgrifenedig.

Teimlant fod yr holl diwtoriaid yn dangos parch at hyfforddeion a’u bod yn gwrando ar eu pryderon a bod eu tiwtoriaid yn eu helpu i ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. Cânt gymorth personol da gan eu tiwtoriaid.

Dywed y rhan fwyaf o hyfforddeion eu bod yn mwynhau’r rhaglen a’u bod yn teimlo’n ddiogel ac yn rhydd oddi wrth aflonyddwch yn y brifysgol ac yn eu lleoliad ysgol. Byddent yn argymell y rhaglen hyfforddiant cychwynnol i athrawon i bobl eraill.

Mae’r rhan fwyaf o hyfforddeion yn barnu bod ganddynt leoliadau ysgol o ansawdd da sy’n bodloni eu hanghenion hyfforddi’n dda. Teimlant y gwnaeth staff yr ysgol eu cefnogi’n dda yn ystod diwrnodau cyntaf eu lleoliad a’u bod yn cael cymorth da a pharhaus gan eu mentor.

Dywed y rhan fwyaf o hyfforddeion eu bod yn cael digonedd o gyfleoedd i arsylwi addysgu da a’u bod yn cael adborth rheolaidd ar eu haddysgu sy’n eu helpu i wella’u medrau. Dywed y rhan fwyaf o hyfforddeion fod uwch reolwyr yn eu cefnogi’n dda i ddeall materion ysgol gyfan. Teimlant eu bod yn gallu gwneud defnydd da o’r offer a’r deunyddiau sydd eu hangen arnynt mewn ysgolion.

Dywed llawer o hyfforddeion fod eu rhaglen wedi eu helpu i ddatblygu agweddau da at gadw’n heini ac yn iach a’u bod yn cael cyfleoedd i ddysgu sut i ddelio â sefyllfaoedd sy’n achosi straen. Teimlant fod eu tiwtoriaid a’u mentoriaid yn eu hannog i reoli eu cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd yn llwyddiannus. Teimlant fod eu rhaglen yn cael ei chynllunio’n effeithiol a bod mathau effeithiol o gymorth ar gael iddynt. Teimlant fod eu tiwtoriaid yn gweithredu yn unol â safbwyntiau hyfforddeion.

Teimla llawer o hyfforddeion fod eu tiwtoriaid yn defnyddio deunyddiau dysgu o ansawdd da a bod darlithoedd, seminarau a sesiynau tiwtorial yn y brifysgol yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o addysgu yn effeithiol. Teimlant fod digon o lyfrau ac offer ar gael iddynt wneud eu gwaith.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Penny Lewis | Arolygydd Cofnodol |
| Sarah Lewis | Arolygydd Tîm |
| Iolo Dafydd | Arolygydd Tîm |
| Sarah Jane Morgan | Arolygydd Tîm |
| Sharon James | Arolygydd Tîm |
| Steve Bell | Arolygydd Tîm |
| Alan Lowndes | Arolygydd Tîm |
| Catharine Anne Bleasdale | Arolygydd Cymheiriaid |
| Phil Bassett | Arolygydd Cymheiriaid |
| Andrew Pickford | Enwebai |